PWYLLGOR PENODI

DYDD IAU, 8 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, McGarry, Dianne Rees a/ac Huw Thomas |

1 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Huw Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

*(Cynghorydd Huw Thomas yn Cadeirio)*

2 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elsmore.

3 : DATGAN BUADIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adolygodd y Pwyllgor chwech o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 20 Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD –

(1) ymgeiswyr 1, 2, 3, 4 a 5 eu symud ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 20 Chwefror 2018;

(2) y Pwyllgor ei ailymgynnull ar gyfer 27 Chwefror 2018 am 9.00am er mwyn galluogi ystyried yr adborth o'r Ganolfan Asesu a chytuno a ddylid cyflwyno'r ymgeisydd i gael cyfweliad ar 6 Mawrth 2018.

*(NODER: Cafodd dyddiad y Ganolfan Asesu ei newid i 23 Chwefror 2018 a'r Pwyllgor Penodi ei ail-drefnu o'r 27 Chwefror 2018 i ddydd Mawrth 6 Mawrth 2018).*

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – Y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Mawrth 6 Mawrth 2018 am 9.00 er mwyn ei alinio gyda dyddiad diwygiedig y Ganolfan Asesu am 23 Chwefror 2018.